

Swyddog Datblygu ac Ymgysylltu

Mae Cymru Masnach Deg yn chwilio am swyddog datblygu brwdfrydig sy'n gallu defnyddio eu sgiliau i ddatblygu a chyflwyno sgyrsiau a gweithdai diddorol, adeiladau perthnasau gyda busnesau a chyrrff cyhoeddus, a helpu i lywio twf Cymru Masnach Deg.

Byddai'r rôl hon yn addas i chwaraewr tîm cyfeillgar a chreadigol, sydd wedi ymrwymo i werthoedd Cymru Masnach Deg, sy'n mwynhau amrywiaeth yn eu swydd, ac sy'n gallu blaenoriaethu a threfnu eu llwyth gwaith. Os ydych chi'n angerddol am gyfiawnder a chydaddoldeb byd-eang, ac eisiau helpu Cymru Masnach Deg i dyfu drwy ddatblygu gwasanaethau a ffrydiau incwm newydd, yna gallai hon fod yr union swydd i chi.

Mae Cymru Masnach Deg yn gweithio i gefnogi, tyfu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw creu byd cyfartal, drwy ddefnyddio ein gwerthoedd o gymorth, cydweithredu a grymuso. Dewch i ymuno â sefydliad cyfeillgar a Masnach Deg.

Mae Cymru Masnach Deg wedi'i sefydlu fel cwmni, wedi'i gyfyngu drwy warrant, gyda statws nid er elw. Rydym yn gweithio fel rhan o [bartneriaeth Hub Cymru Affrica \(HCA\)](#) ac rydym wedi ein lleoli yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Mae'r prosiect a'r swydd hon yn cael eu hariannu gan Gynllun Cam 3 Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru, sydd yn cael ei rheoli a'i gweinyddu gan CGGC ar ran Llywodraeth Cymru.

Sut i ymgeisio

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol drwy e-bost, yn esbonio sut rydych yn bodloni'r manylebau person, a pham rydych chi eisiau gweithio i Cymru Masnach Deg, i aileen@cymrumasnachdeg.org.uk erbyn 10am ar ddydd Mawrth 26 Gorffennaf 2022.

Bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal ar zoom yn ystod yr wythnos yn dechrau 1 Awst 2022.

Manylion

| | |
|--------------|---|
| Yn adrodd i: | Pennaeth Cymru Masnach Deg |
| Tymor: | 9 mis |
| Cyflog: | NJC band 18, £25,419 (£12,700 - 18 awr yr wythnos) |
| Lleoliad: | Gweithio o gartref neu mewn swyddfa yng Nghaerdydd; efallai y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus deithio rhywfaint, ac aros dros nos. |
| Oriau: | 18 awr yr wythnos - 0.5 pro rata |
| Pensiwn: | Cyfraniad Cyflogwr o 5% o'u cyflog gros o dan gynllun NEST, yn amodol ar gyfraniad 5% gan y cyflogwr. |

Gwyliau blynyddol: 25 diwrnod o wyliau pro rata/ y flwyddyn ac eithrio gwyliau'r banc

Gweithio'n hyblyg: Bydd yr holl geisiadau am gael gweithio'n hyblyg yn cael eu hystyried

Pwrpas cyffredinol y rôl

Mae ein strategaeth ar gyfer 2020-2024 yn rhestru ein huchelgeisiau y tu hwnt i'n gallu presennol ar gyfer pob un o'n nodau strategol. Prif bwrpas y gwaith hwn yw galluogi Cymru Masnach Deg i ddod yn fwy gwydn, drwy ehangu ein ffrydiau incwm. Bydd y rôl newydd hon yn helpu i ddatblygu gallu Cymru Masnach Deg i werthu ei harbenigedd, drwy adeiladu cysylltiadau â sefydliadau partner a gwerthu gweithdai ac ymgynghoriaeth bwrpasol.

Rydym yn chwilio am rywun sydd â diddordeb mewn siapio'r rôl hon, yn unol â'u harbenigedd a'u profiad. Prif bwrpas y rôl hon yw:

- Creu a darparu cynnig gwasanaethau newydd, am dâl, i helpu i gynyddu ffynhonnellau incwm Cymru Masnach Deg
- Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o gysylltiadau rhwng Masnach Deg a chyfrifoldeb byd-eang yn glir ac yn effeithiol
- Helpu i ddatblygu prosiectau gyda Cymru Masnach Deg a sefydliadau partner
- Cyfrannu at ddatblygu strategaeth Cymru Masnach Deg yn y dyfodol

Swydd-ddisgrifiad

Datblygu cysylltiadau

- Cefnogi a hyrwyddo ymwybyddiaeth o Fasnach Deg o fewn cyrff a busnesau cyhoeddus
- Datblygu cysylltiadau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes gyda phartneriaid allweddol
- Adeiladu cynigion ymgynghori pwrpasol ar gyfer tîm staff Cymru Masnach Deg Cymru i'w cyflawni
- Gwerthu gwasanaethau i bartneriaid newydd a threfnu/cydllynu anfonebau

Datblygu a chyflenwi gwasanaethau

- Datblygu a dylunio deunyddiau ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau newydd. Er enghraifft; gweithdai, sgysiau a chyflwyniadau
- Gweithredu'r pecyn cynnig gwasanaeth newydd ar gyfer partneriaid, i hyrwyddo Masnach Deg a'i gyfraniad at gyfrifoldeb byd-eang
- Creu a chyflwyno cynllun marchnata ar gyfer y gwasanaethau newydd, gan gynnwys ehangu gwefan Cymru Masnach Deg i gynnwys gwasanaethau newydd
- Sicrhau bod cronfeydd data a chysylltiadau perthnasol yn gyflawn ac yn gyfredol, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol

Cyfrifoldebau ychwanegol

- Sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf am arbenigedd perthnasol drwy hyfforddiant a datblygiad
- Cyflawni gwaith monitro, gwerthuso a dysgu priodol
- Cysylltu â cheidwaid llyfrau ynghylch cyllid ac anfonebau
- Cefnogi'r rheolwr i sicrhau bod targedau Cymru Masnach Deg yn cael eu cyflawni
- Cydymffurfio â phob cais rhesymol yn amodol ar fanylebau cyffredinol y rôl

Manyleb y person

| Hanfodol | Dymunol |
|--|--|
| Sgiliau a Chymwysedau | |
| <ul style="list-style-type: none">• Angerdd amlwg dros Fasnach Deg• Gwybodaeth am Deddf yr Iaith Gymraeg a'i goblygiadau i'n cefnogwyr a'n rhanddeiliaid• Y gallu i ddefnyddio menter, gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dim bach• Sgiliau trefnu a gweinyddu profedig• Dealltwriaeth o ofynion GDPR | <ul style="list-style-type: none">• Y gallu i gyfathrebu'n rhugl drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (ar lafar ac yn ysgrifenedig)• Gwybodaeth gadarn am Fasnach Deg a/neu feysydd cysylltiedig eraill fel cyfiawnder masnach, cadwyni cyflenwi, hawliau gweithwyr a chaffael• Profiad o fonitro a gwerthuso• Profiad o ddefnyddio G-suite |
| Datblygu cysylltiadau | |
| <ul style="list-style-type: none">• Dealltwriaeth o achosion, cymhellion ac anghenion y sectorau cyhoeddus a/neu breifat• Y gallu i adeiladu cysylltiadau gwaith da gydag ystod amrywiol o bobl a chymunedau• Sgiliau hwyluso a chyflwyno• Y gallu i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau ar-lein | <ul style="list-style-type: none">• Gwybodaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol• Profiad o gyflwyno gweithdai a sgysiau ar feysydd pwnc manwl, yn fewnol ac mewn partneriaeth ag eraill• Y gallu i werthu gwasanaethau a thrafod costau |

Datblygu a Darparu Gwasanaethau

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none">• Wedi rheoli, cynllunio a chreu cynnwys dwyieithog diddorol• Sgiliau TG profedig ar sawl platfform, gan gynnwys Microsoft a Google• Y gallu i ddysgu pynciau newydd mewn amser byr NEU yr wybodaeth ddiweddaraf am bynciau perthnasol• Y gallu i ddylunio cynnwys sy'n ddeniadol i'r llygaid. | <ul style="list-style-type: none">• Profiad o greu a/neu gomisiynu adnoddau dwyieithog• Gwybodaeth o Wordpress CMS• Profiad o reoli cronfeydd data• Profiad o reoli adnoddau electronig a chorfforol |
|---|---|

